# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Medi 2014 yn Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45 y bore.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2014

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 (3.1) Gorsaf Dân ac Ambiwlans Wrecsam – rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod seremoni torri'r dywarchen wedi ei chynnal ar 19 Medi. Roedd Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Lesley Griffiths, yr AC dros Wrecsam yn bresennol, ynghyd â staff o'r gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân ac achub.

3.2 (6.2) Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru – cafodd yr Aelodau wybod y bydd y fframwaith cenedlaethol tân ac achub yn cael ei adolygu fel rhan o'r prosiect. Fel y trafodwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod, byddai'r tri Phrif Swyddog Tân yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen fel sylwedyddion, ac roedd y cyfarfod cyntaf yn mynd i gael ei gynnal ar ôl cyfarfod yr Awdurdod. Caiff yr Aelodau wybod am y datblygiadau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol. Rhagwelir y bydd yr adolygiad o gyfansoddiad yr awdurdodau tân ac achub yn cael ei drafod drwy'r gwaith ar adroddiad y Comisiwn Williams.

3.3 Ar yr adeg hon, soniodd y Cyng. Dunn am erthygl yn y papur lleol am orsaf dân Glannau Dyfrdwy. Cadarnhaodd y PST y bu oedi mewn perthynas â'r gwaith adnewyddu ond mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu ei gynllun parhad busnes ac argyfyngau, a dylai hynny sicrhau bod yr oedi ar y gwaith adeiladu cyn fyrred â phosibl, a bydd yr orsaf yn parhau i ymateb i ddigwyddiadau gweithredol oddi yno.

3.4 (16.2) Gweithredu Diwydiannol – rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau fod Undeb yr FBU a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal i drafod a bu rhywfaint o ddatblygiadau posibl. Cadarnhawyd na fu unrhyw weithredu diwydiannol ers mis Awst.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng mis Mehefin a mis Medi 2014 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 YR YMGYNGHORIAD YNGHYLCH AMCANION GWELLA 2015-16: CANFYDDIADAU SY'N DOD I'R AMLWG

6.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod y PST a'r DBST, fel rhan o'r ymgynghoriad ar amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol, wedi cyfarfod â phrif weithredwyr pob cyngor yng Ngogledd Cymru cyn cyfarfod â'r cynghorwyr. Roeddent wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint, a byddant yn mynychu cyfarfodydd gyda chynghorwyr y pedwar cyngor arall cyn diwedd mis Hydref. Byddai'r ddogfen ymgynghorol ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos.

6.2 Dywedodd y Clerc y byddai asesiad perfformiad yr Awdurdod am 2013-14 yn ddogfen wybodaeth dda i'w rhannu gyda'r holl gynghorwyr.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a ddarparwyd.**

7 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2013-14

7.1 Cyflwynodd y DBST y ddogfen asesiad perfformiad a ysgrifennwyd gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, ac aethpwyd â'r aelodau drwy'r ddogfen a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir a'r cyd-destun y cânt eu darparu o'i fewn.

7.2 Cafodd y ddogfen ei llunio yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi cyfrif o weithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod yn 2013-14 mewn un ddogfen. Roedd yn rhoi asesiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, ynghyd â'r amcanion gwella yr oedd wedi eu gosod iddo'i hun. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â dangosyddion penodol, cenedlaethol a lleol, a mesurau llwyddiant. Nododd yr Aelodau fod yna graffiau ychwanegol yn cymharu perfformiad ag ATAau eraill, a hynny yn dilyn cais gan Swyddfa Archwilio Cymru y dylai'r Awdurdod dynnu mwy o gymariaethau gydag ATAau eraill yn y Deyrnas Unedig.

7.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at y meysydd perfformiad canlynol:

- mae'r amser i gyrraedd digwyddiadau wedi aros yn gymharol gyson ers 2011-12
- roedd gwariant yr Awdurdod ar ddiogelwch cymunedol fel cyfran o'i gyllideb ar gyfer 2012-13 yn un o'r rhai uchaf yn y Deyrnas Unedig, gan ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i atal tanau ac amddiffyn pobl Gogledd Cymru rhag tanau
- er bod cynnydd o 3% wedi bod yn nifer y tanau yng Ngogledd Cymru yn 2013-14, gellid priodoli hyn i'r ffaith fod nifer eithriadol isel o danau wedi bod yn 2012-13 a hynny oherwydd, fe gredid, lefel anghyffredin o uchel o law y flwyddyn honno. Fodd bynnag, roedd y 3% o gynnydd yn cymharu'n eithaf dda gyda'r 10% o gynnydd yn Lloegr a'r 15% o gynnydd yng Nghymru ar ei hyd
- roedd nifer yr anafusion a fu'n rhaid mynd i'r ysbyty o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau am bob 10,000 o boblogaeth yn 2013-14 yn cael ei ystyried yn uwch na'r disgwyl, a nodwyd y byddai'r swyddogion yn cynnal ymchwil pellach i ganfod pam.

7.4 Bu'r Aelodau'n trafod gwahanol agweddau ar y ddogfen. Holodd un o'r aelodau ai oherwydd bod gosod larymau mwg yn gwneud pobl yn fwy hunanfodlon ynglŷn â diogelwch tân yr oedd y cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau, ond esboniodd y DBST mai'r rheswm mwy tebygol oedd fod nifer uwch o bobl yn agored i danau yn y gymuned.

7.5 Llongyfarchwyd yr awdur gan y Cyng. Lewis am ddogfen a oedd yn ei dyb ef yn darparu digonedd o wybodaeth, ac awgrymodd y gallai'r graffiau mewn adroddiadau yn y dyfodol gael lliw gwahanol ar gyfer yr ATAau eraill yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn haws cymharu rhwng y rhai yng Nghymru.

7.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2013-14 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2014.**

8 ALLDRO AMCANOL 2014-2015

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2014-15. Ar hyn o bryd rhagwelir amcangyfrif o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond gallai hyn newid gan ddibynnu ar lefel y digwyddiadau rhwng nawr a Mawrth 2015. Aeth y Trysorydd â'r aelodau drwy'r adroddiad gan esbonio'r amrywiannau i wahanol benawdau'r gyllideb.

8.2 Erbyn hyn roedd deunaw o ddiffoddwyr tân gwledig y system dyletswydd amser cyflawn yn eu swyddi fel rhan o brosiect peilot a sefydlwyd i ganfod ffyrdd o gael gofal tân mwy cost-effeithiol mewn ardaloedd gwledig; caiff y canlyniadau eu cyflwyno i'r aelodau unwaith y bydd y peilot wedi dod i ben. Yn weithredol, bu angen darparu cerbydau digon mawr i gludo'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer diffoddwyr tân 'symudol', ac ar hyn o bryd mae 15 o gerbydau wedi cael eu hurio ar gyfer hyn. Fodd bynnag, ystyrid y byddai'n fwy buddiol, yn weithredol ac yn ariannol, i brynu'r cerbydau ac unrhyw gyfarpar ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol drwy'r rhaglen gyfalaf, a'r amcangyfrif o gost hyn yw £300k. Er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol, argymhellir bod costau'r cerbydau a'r cyfarpar yn cael eu hariannu o'r tanwariant yn y flwyddyn bresennol.

8.3 **PENDERFYNWYD**
**(i) nodi'r tanwariant a amcangyfrifir ar hyn o bryd, sef £381,218; a**
**(ii) cytuno i roi arian o'r neilltu i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol.**

9 DATGANIAD O GYFRIFON 2013-14

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd y Datganiad archwiliedig o Gyfrifon am 2013-14 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i'w cymeradwyo.

9.2 Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r cynnwys yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2014, nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau o bwys ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau sylweddol yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Roedd y datganiad llywodraethu blynyddol wedi cael ei gymeradwyo'n gynt, ac wedi ei gynnwys fel atodiad i'r datganiad o gyfrifon. Hefyd cyflwynwyd y llythyr sylwadau oddi wrth yr Awdurdod at Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG, i'w gymeradwyo. Mae'r llythyr yn un o ofynion y Safonau Archwilio, o ran bod angen i KPMG gael sylwadau gan yr Awdurdod i gefnogi ei farn archwilio.

9.3 Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau a gafwyd wedyn ynglŷn ag ymdriniaeth cyfrifyddu, diffiniadau a dull cyflwyno eitemau penodol yn y cyfrifon.

9.4 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y dylai'r ffigwr ar dudalen 26 dan baragraff 8 ddweud 10,838 nid 10,828, a byddai hyn yn cael ei newid cyn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon erbyn 30 Medi 2014.

9.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo datganiad archwiliedig o gyfrifon 2013-14, a nodi'r llythyr sylwadau a anfonwyd at yr archwilwyr allanol.**

10 RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDDION ARIANNOL

10.1 Rhoddodd y Trysorydd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rheoli trysorlys yr Awdurdod a'r dangosyddion ariannol. Fel gyda'r datganiad o gyfrifon, nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2015, nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau o bwys ac ni allent ganfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

10.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r dangosyddion ariannol diwygiedig;**

**(ii) nodi'r partïon cyfredol i gontract;**

**(iii) nodi'r ddau fenthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwasanaethau Cyhoeddus (PWLB), gydag un yn dod yn lle benthyciad a oedd wedi aeddfedu a'r llall i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.**

11 DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION 2014

11.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r cytundeb ynglŷn â dyfarniad cyflog 2014 a wnaed gan Gyd-Gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (Cyd-Gyngor yr NJC).

11.2 Esboniodd y Trysorydd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Diwygio) (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â thalu prif swyddogion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio tâl prif swyddogion (neu'r rhai a benodir yn brif swyddogion) yn gorfod cael ei wneud gan yr awdurdod llawn, heb y posibilrwydd o ddirprwyo hynny i bwyllgor o blith yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw godiadau cyflog blynyddol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

11.3 **PENDERFYNWYD cefnogi penderfyniad y Cyd-Gyngor mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog, gan ddod i rym o 1 Ionawr 2014 fel a ganlyn:**

- **cynnydd o 1.0% yn y cyflog sylfaenol sy'n berthnasol i reolwyr brigâd sy'n ennill cyflog sylfaenol o £99,999 neu lai (fel ar 31 Rhagfyr 2013)**

- **cynnydd cyfradd sylfaenol o £1000 yn y cyflog sylfaenol sy'n berthnasol i reolwyr brigâd sy'n ennill cyflog sylfaenol o £100,000 neu fwy (fel ar 31 Rhagfyr 2013).**

12 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

12.1 Cyflwynodd y PSTC Ruth Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law gan y cyhoedd rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

12.2 Ni fydd y Gwasanaeth ond yn ymchwilio i gwynion sy'n dod o fewn y diffiniad o gŵyn fel y nodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; naw o'r 21 cwyn a ddaeth i law oedd yn cael eu diffinio'n gwynion. Roedd yn werth nodi mai dim ond dwy gŵyn a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd ynglŷn â gyrru, er bod y Gwasanaeth wedi gwneud 11,652 o deithiau 'Goleuadau Glas' wrth ymateb i ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol. Yn yr un cyfnod daeth 73 o lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost, Twitter a Facebook i law yn mynegi gwerthfawrogiad a boddhad gyda'r Gwasanaeth.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

13 Y PAPUR GWYN AR DDATGANOLI, DEMOCRATIAETH A CHYFLANWI – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

13.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo ymateb yr Awdurdod i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol.

13.2 Bu'r Aelodau'n trafod yr ymateb drafft ac roeddent yn cydnabod ei fod yn canolbwyntio ar y cwestiynau a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr awdurdod tân ac achub. Ar y cyfan, roedd yr Aelodau'n fodlon gyda'r ymateb ac yn nodi'r cyngor a roddwyd, sef y byddai'r cwestiynau nad oedd yn cael eu hateb yn y drafft yn cael y sylw priodol yn ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cytunwyd i ychwanegu paragraff i herio pam nad oedd y gwasanaeth iechyd wedi ei gynnwys o fewn briff y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus ac felly'r Papur Gwyn, o ystyried effeithiau anghenion ariannol cynyddol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar y gyllideb Gymreig a'r setliad llywodraeth leol.

13.3 I ateb cwestiynau a oedd yn gofyn a oedd Undeb yr FBU wedi cael mewnbwn yn ymateb yr Awdurdod, cadarnhawyd nad oedd yr ymateb wedi cael ei rannu gyda'r Undeb. Nid oedd y PST yn ymwybodol a oedd yr Undeb wedi cyflwyno ei ymateb ei hun. Cynigiodd y Cyng. A Jones fod yr Awdurdod yn rhannu ei ymateb gyda'r Undeb; cytunwyd i wneud hyn, ar yr amod fod y Cadeirydd a'r PST yn cael awdurdod wedi ei ddirprwyo iddynt i benderfynu a oeddent, ai peidio, am amrywio ymateb terfynol yr Awdurdod ar ôl ystyried unrhyw farn a gyflwynir gan yr Undeb.

13.4 Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r ymateb i'r cwestiwn ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr/aelodau, ond roeddent yn bryderus fod y Comisiwn a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi methu deall bod Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn cyflawni'r swyddogaeth graffu, ac roeddent yn awgrymu y dylid esbonio hyn eto yn yr ymateb dan y cwestiwn ar lywodraethiad yr ATA.

13.5 **PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gwblhau'r ymateb yn derfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar**
**(i) diwygio'r ymateb fel y nodir uchod; a**
**(ii) rhannu'r ymateb drafft gydag Undeb yr FBU ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff cynrychioliadol.**

14 COSTAU'R GWEITHREDU DIWYDIANNOL

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r aelodau am y gwariant a fu hyd yn hyn mewn cysylltiad â streiciau Undeb yr FBU. Er nad yw'r anghydfod wedi dod i ben, esboniodd y PST fod y Gwasanaeth wedi cael nifer o geisiadau rhyddid gwybodaeth ynglŷn â chost yr anghydfod ac felly roedd wedi penderfynu cyhoeddi'r wybodaeth.

14.2 Nodwyd bod Undeb yr FBU, ers y streic gyntaf ar 25 Medi 2013, wedi galw 32 o gyfnodau o weithredu diwydiannol hyd at a chan gynnwys y streic ddiwethaf ar 16 Awst 2014. Er mwyn i'r Gwasanaeth ddilyn ei drefniadau parhad busnes (sy'n sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau brys a gwasanaethau critigol), rhaid cael trefniadau wrth gefn ar gyfer pob cyfnod o weithredu diwydiannol. Yn anochel mae'r trefniadau hyn yn arwain at gostau ychwanegol i'r Gwasanaeth. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys tabl yn dangos y costau, ond er bod rhai costau'n hawdd i'w hadnabod, nid yw rhai eraill mor hawdd ac felly defnyddiwyd amcangyfrifon. £208,990.66 oedd y gost ychwanegol i'r Gwasanaeth am drefniadau wrth gefn yn ystod y gweithredu diwydiannol. Mae'r swm yn cymryd ystyriaeth o'r arbedion o ganlyniad i dynnu cyflogau oddi ar weithwyr am streicio.

14.3 Mynegodd yr Aelodau bryder am gost cymorth milwrol, a chawsant eu hatgoffa eu bod wedi cael gwybod am y mater hwn mewn cyfarfodydd blaenorol dan amodau rhan II. Aeth y PST yn ei flaen i esbonio fod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r tri ATA yng Nghymru ar gychwyn yr anghydfod diwydiannol i gynnig cymorth milwrol. Ar ôl gweithredu cynlluniau parhad busnes y Gwasanaeth, roedd y PST wedi sylweddoli nad oedd angen cymorth milwrol a rhoddodd wybod i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y staff milwrol wedi cael hyfforddiant gweithredol erbyn hynny a chost hyn oedd tua £435k, i'w rannu rhwng y tri ATA. Gofynnodd i'r Aelodau i lythyr gael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryderon ynglŷn â'r mater.

14.4 **PENDERFYNWYD**
**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**
**(ii) gofyn i'r Clerc lunio llythyr, ei rannu gyda'r aelodau, ac yna ei anfon i Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon fel y trafodwyd yn y cyfarfod.**

15 COFNODION ER GWYBODAETH

15.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2014 er gwybodaeth.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

Bu'r Aelodau'n trafod y gweithredu diwydiannol, a nodwyd nad oedd rhagor o wybodaeth i'w rhannu yn rhan II ac felly daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a diolch i bawb am ddod.